# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Heb Gymhwyster

Cod 14: 2021 Fersiwn 01
Mewn grym: 1 Tachwedd 2021

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Tachwedd 2021 | 2018 Fersiwn 03 | Mân addasiadau yn unol ag ailstrwythuro'r Brifysgol. |
| 1 Mai 2018 | Fersiwn 2017 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 2 Tachwedd 2021. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Heb Gymhwyster

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud â phob gweithgaredd addysgol nad yw'n arwain at gwblhau cymhwyster penodol gan y brifysgol.

---

1. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bob gweithgaredd addysgol a gynhelir gan y brifysgol nad yw'n arwain at gwblhau cymhwyster penodol gan y brifysgol. Mae'r cyfryw weithgareddau'n cynnwys modiwlau gyda chredydau sy'n cael eu cwblhau gan fyfyrwyr heb gyfrannu'r un pryd at gredydau ar gymhwyster penodedig; cyrsiau byrion; seminarau; gweithdai a chyrsiau a gyflwynir fel rhan o brojectau ymgynghorol neu ddatblygu; a chyrsiau a gynigir gan y brifysgol fel rhaglen freinio neu gyffelyb a achredwyd gan sefydliad neu gorff arall. Cyfeirir at yr holl ddarpariaeth o'r fath fel 'cwrs/cyrsiau' yng ngweddill y ddogfen hon. Cyfeirir at gyfranogwyr a myfyrwyr ar y cyfryw gyrsiau fel 'myfyriwr/myfyrwyr' i ddibenion y ddogfen hon.
2. Dylid darllen y Cod Ymarfer hwn gyda'r Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig, ac oni bai y nodir fel arall, daw holl ddarpariaeth ddi-gymhwyster, a myfyrwyr sy'n dilyn y cyfryw gyrsiau (yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid), dan reoliadau, codau ymarfer, gweithdrefnau, canllawiau a phrosesau sicrhau ansawdd y brifysgol.

**Trefniadaeth, Cyflwyno a Sicrhau Ansawdd**

3. Mae penaethiaid ysgolion neu benaethiaid adrannau gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau y caiff cyrsiau eu trefnu a'u cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer hwn.
4. Rhaid i unigolyn penodol fod yn gyfrifol am drefniadaeth a chyflwyno cyrsiau, er y gellir dirprwyo cyfrifoldebau penodol i eraill.
5. Rhaid i fframwaith a chynnwys cyrsiau adlewyrchu'r pwyslais a roddir gan broses cymeradwyo cyrsiau a modiwlau y brifysgol ar ddeilliannau dysgu, diffinio cynnwys sy'n rhoi sylw i'r deilliannau, cysylltu dulliau asesu â deilliannau dysgu, a diffinio meini prawf asesu i bob asesiad.
6. Dylid cynnal cyrsiau mewn mannau sy'n briodol i gyflawni deilliannau dysgu a dulliau addysgu. Rhaid i fyfyrwyr gael mynediad hefyd at yr adnoddau sydd eu hangen i ddilyn y cwrs, yn cynnwys adnoddau electronig. Mae hyn yn neilltuol berthnasol pan gyflwynir cyrsiau i ffwrdd o eiddo'r brifysgol.
7. Pan gynllunnir cyrsiau yn unol â gofynion sefydliadau neu gyrff allanol, mae'n rhaid iddynt hefyd gyflawni disgwyliadau'r brifysgol fel yr amlinellir hwy ym mharagraff 5.

8. Lle rhoddir credydau am gwrs, dylid ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r brifysgol i gymeradwyo cwrs neu fodiwl fel y diffinnir hwy yn y Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni.

9. Dylai myfyrwyr werthuso pob cwrs, ac elfennau o gyrsiau modiwlaidd, gan ddefnyddio holiaduron di-enw lle bynnag y bo modd.  Gellir defnyddio grwpiau ffocws, neu ddulliau priodol eraill, i werthuso'r ddarpariaeth, ond yn ddelfrydol fel ychwanegiad at holiaduron.

10. Dylai ansawdd cyrsiau gael ei werthuso a'i fireinio yn unol â gweithdrefnau sicrhau ansawdd y brifysgol.

    - Lle rhoddir credydau am gwrs, daw dan yr egwyddorion a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni. Rhaid i adroddiadau blynyddol, fel y pennir i fodiwlau a chyrsiau, gael eu cyflwyno i'r Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu i'w harchwilio gan y brifysgol.
    - Lle na roddir credydau am gwrs, rhaid ei werthuso gan ddefnyddio proses adfyfyriol lle mae trefnydd/trefnwyr y cwrs yn asesu ei ansawdd gan gymryd i ystyriaeth farn myfyrwyr a rhai sy'n ymwneud â'i gyflwyno.  Dylid cwblhau gwerthusiadau o'r fath er mwyn galluogi i unrhyw newidiadau gael eu gwneud cyn i'r cwrs - neu amrywiad arno - gael ei ailadrodd.

11. Os yw cwrs yn destun archwiliad neu sicrhau ansawdd gan sefydliad allanol, neu ar ei ran, gellir defnyddio canlyniadau archwiliad o'r fath yn lle gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill ar yr amod bod y gweithdrefnau o leiaf mor drylwyr â'r rhai a ddisgrifiwyd yn y prosesau a amlinellir uchod.

12. Dylai staff sy'n rheoli neu gyflwyno'r cwrs cyfan, neu rannau ohono, gael cymwysterau ac/neu brofiad priodol i'r lefel astudio a chynnwys y cwrs.   Gall staff heb brofiad addysgu blaenorol gyfrannu at elfennau bychain o gyrsiau ond rhaid i'w cyfraniad gael ei gefnogi gan staff sydd â phrofiad addysgu.

13. Dylid cael prosesau cynefino a monitro i'r holl staff sy'n gysylltiedig â'r cwrs i sicrhau bod ganddynt wybodaeth am ddeilliannau, asesiadau a threfniadaeth y cwrs.

**Derbyn a Chofrestru**

14. Rhaid i'r meini prawf a'r cymwysterau ar gyfer derbyn gael eu diffinio'n glir a'u gweithredu'n unol â Chod Ymarfer y brifysgol ar Recriwtio.  Dylid cymryd gofal neilltuol pan ddewisir myfyrwyr gan sefydliad allanol (er enghraifft, lle mae staff o'r brifysgol yn cyflwyno cwrs a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer staff o sefydliad penodol a lle mae cyfranogwyr y cwrs yn cael eu henwebu gan y sefydliad).

15. Dylid hysbysu myfyrwyr trwy lythyr os oes raid iddynt gwblhau unrhyw waith paratoadol ar gyfer y cwrs.

16. Os rhoddir credydau am y cwrs, rhaid i fyfyrwyr gofrestru ar y cwrs, a'i fodiwlau cydrannol lle bo'n briodol, gan ddefnyddio cronfa ddata cofnodion canolog y brifysgol (Banner).  Rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am y cwrs sicrhau bod y cofnodion yn

cael eu cofnodi i'r system. Gellir trosglwyddo data yn electronig i Banner o gronfa ddata arall, ond rhaid cytuno ymlaen llaw ar y trefniadau ar gyfer hyn gyda'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr. Os na roddir credydau am y modiwl, rhaid i'r ysgol/adran sy'n ei gyflwyno sicrhau bod cofnodion cofrestru myfyrwyr yn cael eu cynnal yn effeithiol a'u cadw'n ddiogel.

**Credydau a chofrestru**

17. Rhaid i lefel, deilliannau dysgu ac asesiad cyrsiau fod yn gyson â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Lle rhoddir credydau am gyrsiau, ni all nifer y credydau fod yn uwch na'r hyn sy'n cyfateb i 180 credyd y flwyddyn.

18. Rhaid i'r cyfnodau astudio llawn-amser ac/neu ran-amser fod fel y pennwyd hwy ar gyfer pob cwrs.

19. Gall astudio neu brofiad blaenorol gyfrannu tuag at y credydau sydd eu hangen ar gyfer cwrs, yn cynnwys:

    - Canlyniadau astudiaethau blaenorol (Trosglwyddo Credydau).
    - Dysgu blaenorol (Cydnabod Dysgu Blaenorol - RPL).

    Ni all y nifer mwyaf o gredydau y gellir eu trosglwyddo o astudiaethau blaenorol fod yn fwy na hanner cyfanswm y credydau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Lle cymeradwywyd trosglwyddo credyd, gall y brifysgol gyfrifo gostyngiad pro-rata i'r cyfyngiad amser drwodd a thro.

**Asesu**

20. Yn ogystal â sicrhau bod y dulliau asesu'n briodol i'r deilliannau dysgu, rhaid i'r dulliau asesu fod yn briodol i'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y cwrs. Dylid ystyried y dewis o ddull asesu hefyd yng nghyd-destun y sgiliau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Er enghraifft, gall adroddiadau, cyflwyniadau, papurau datrys problem a chyfarwyddo fod yn ddewisiadau yn lle traethodau.

21. Dylai lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y cwrs a, lle bo'n briodol, ei gydrannau, gael eu diffinio ymlaen llaw a dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr amdanynt. Rhaid i'r marc llwyddo fod yn 40% (Lefelau 4-6) neu 50% (Lefel 7). Mae angen marc o fan leiaf 70% i gyfateb i ragorol neu ragoriaeth.

22. Er mwyn cwblhau cwrs yn llwyddiannus, rhaid i fyfyriwr fod wedi:

    - Cyflawni holl elfennau'r cwrs
    - Llwyddo yn yr holl fodiwlau craidd
    - Llwyddo mewn o leiaf ⅔ o’r credydau sy’n cyfrannu at y cwrs.
    - Cyflawni unrhyw amodau a ddiffiniwyd ar gyfer y cwrs.

23. Rhaid i arholwyr ddilyn confensiynau a nodwyd yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig. Mae'r confensiynau hyn yn cynnwys rhyddid yr arholwyr i gymryd i ystyriaeth ddatblygiad academaidd myfyrwyr drwy gydol y cynllun astudio ac/neu amgylchiadau lliniarol. Mae'r Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig hefyd yn cynnwys

canllawiau ar safoni allanol a mewnol. Mae'n arfer da i ganlyniadau cyrsiau yn cynnwys credydau gael eu cadarnhau gan fwrdd arholi o fewn yr Ysgol sy'n gysylltiedig agosaf â'r cwrs.

24. Yn ôl doethineb yr arholwyr, gellir caniatáu i fyfyrwyr sy'n methu unrhyw gydrannau gael dwy ymgais bellach i wneud iawn am y methiant. Yn dilyn ymgais i wneud iawn am fethiant, rhaid i'r marc am yr asesiad gael ei gapio ar y marc llwyddo.

**Cofnodion a Darparu Tystysgrifau**

25. Os rhoddir credydau am y cwrs, rhaid farciau'r myfyrwyr gael eu cofnodi gan ddefnyddio cronfa ddata cofnodion canolog y brifysgol (Banner). Gellir trosglwyddo data yn electronig i Banner o gronfa ddata arall, ond rhaid cytuno ymlaen llaw ar y trefniadau ar gyfer hyn gyda'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr. Os na roddir credydau am y cwrs, rhaid i'r ysgol/adran sy'n ei gyflwyno sicrhau bod marciau myfyrwyr yn cael eu cynnal yn effeithiol a'u cadw'n ddiogel.

26. Lle bynnag y bo modd, dylai myfyrwyr gael tystiolaeth sy'n dangos eu cyrhaeddiad ar y cwrs. Gall hyn fod ar ffurf dogfen a gynhyrchir gan y rhai sy'n gyfrifol am y cwrs. Dylid cymryd gofal (er enghraifft, drwy ddefnyddio papur boglynnog (*embossed*) neu gynnwys rhif cyfeirio unigryw) i rwystro unrhyw atgynhyrchu dogfennau trwy dwyll. Ni ddylai teitlau cyrsiau wrthdaro â'r rhai a ddefnyddir gan y brifysgol ar gyfer ei darpariaeth y rhoddir credydau amdani.

27. Lle bo'n briodol, dylai myfyrwyr fedru cael crynodeb manwl o'r cyrhaeddiad ar gyfer y cwrs yn ei gyfanrwydd ac ar gyfer ei gydrannau. Dylai crynodebau neu drawsgrifiadau fod yn ddigon manwl i ddisgrifio cyraeddiadau'r myfyriwr i ddarpar gyflogwr, sefydliad proffesiynol neu i'w (d)derbyn ar gwrs astudio yn y brifysgol neu rywle arall.

28. Disgwylir y defnyddir system cofnodion canolog y brifysgol i gynhyrchu trawsgrifiadau myfyrwyr; dylid trafod y gofynion ymlaen llaw gyda'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr.